# CYNGOR CYMUNED PENTIR

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD yn Rhithiol ar yr 16/07/2020**

**Presennol:**
Y Cyng. M Lynch, Eleri Jones, B Jones, M Baines, J Pierce, D Jones-Morris a D W Jones.
Elwyn Jones (Clerc )

**Ymddiheuriadau**:
Y Cyng, J. Griffiths, L. A . James, H Griffiths a T Anwyl-Williams

**Ethol Cadeirydd i'r cyfarfod**
Etholwyd Cyng D W Jones i gadeirio.

Traddodwyd Gweddi gan y Cadeirydd

Yn ei sylwadau agoriadol croesawodd y Cadeirydd bawb oedd bresennol i gyfarfod rhithiol cyntaf Cyngor Cymuned Pentir gan ymddiheuro fod y Cyfarfod Blynyddol oherwydd y gwaharddiadau presennol wedi gorfod mynd mor bell yn y flwyddyn.
'Roedd yn debygol iawn mae cyfarfodydd rhithiol fyddai y 'normal newydd' am beth amser.

**1. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2018 a materion yn codi.**
Derbyn Cofnodion
Ar gynnig Cyng D Jones-Morris gafodd ei eilio gan Cyng M Baines derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**2. Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol 2019-20**
Derbyniwyd cyfrifon am y flwyddyn 2019-20 ynghyd a'r adroddiad ariannol.

'Roedd popeth bellach yn barod i'w cyflwyno i'r archwiliwyr mewnnol (Cyngor Gwynedd) fel y gallwn os yn bosib dderbyn a chymerawyo eu adroddiad nhw yng nghyfarfod Mehefin a'i anfon ymlaen i BDO

**3. Adroddiad y Cadeirydd**
Gan mae ethol Cadeirydd ar gychwyn pob cyfarfod oedd y Cyngor wedi ei wneud ers Mis Tachwedd 2019 ni chafodd adroddiad ei chyflwyno ond diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei waith dros y Cyngor yn ystod y cyfnod clo

**4. Ethol Swyddogion**
Cytunwyd i gadw at yr un drefn o ethol Cadeirydd ar gychwyn cyfarfodydd dros y cyfnod cyfarfodydd rhithiol ag ethol pan fyddai sicrwydd fod pawb yn gallu ymuno yn rhithiol

4.3 – Aelodaeth o'r Is-Bwyllgorau

Cytuniwyd i aelodaeth Is Bwyllgor Cyllid aros fel ag y mae sef Cyng Lowri James (Cad) Cyng Dewi W Jones, Cyng Dafydd Jones-Morris Cyng Jean Pierce a'r Cyng Bernard Jones.

Byddai'r Cadeirydd y cyngor a'r hawl i fynychu yr Is-Bwyllgor

Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben am 7.30

************************************